O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 949 (Cy. 212)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym* | *14 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A489 a'r A483, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 14 Medi 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth a Chefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd sy'n ymestyn o

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Gylchfan Ffordd Llanidloes hyd at Gylchfan Pool Road, y Drenewydd, Powys;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu i gael mynediad i eiddo priodol;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 14 Medi 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r cefnffyrdd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r cefnffyrdd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r cefnffyrdd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Medi 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru